**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.30 O'R GLOCH 03.06.24**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Thomas Mort, Gordon Howie, James Maxwell

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), Rhian Corps, Ceri Griffiths, Edwina Evans, Martin Hughes, Giles Bentham, Reg Chapman, Wendy Williams, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 5 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod ag aeth ymlaen i egluro bod unrhyw fater arall wedi ei dynnu o'r agenda oherwydd ei fod, yn dilyn cyfarfod gyda Un Llais Cymru, wedi cael gwybod bod cynnwys yr eitem ar yr agenda ddim yn ymarfer da.

Yn unol â Rheoliadau Ariannol 4.5 (fel y'i diwygiwyd 13eg o Fai 2024) awdurdodwyd gwariant gan y Clerc gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan fod yn rhaid gwneud gwaith brys ar goeden a oedd angen sylw ar lwybr natur Bron y Graig am £400 a hefyd gwaith brys ar un o'r toiledau a oedd yn gollwng yn y toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa am £75 'ag hefyd mae angen gwaith trydanol wedi ei gario allan yn y toiledau hyn a bydd yn cysylltu gyda trydanwr yn fuan er mwyn cario y gwaith hyn allan.

Gofynodd a fyddai'n bosib cael eitemau oedd eisiau eu cynnwys ar agenda y cyfarfod nesa wedi eu hanfon i'r Clerc 3 diwrnod cyn bod yr agenda yn cael ei anfon allan a cytunodd pawb i hyn.

Datganodd y Cadeirydd na fydd yn goddef unrhyw gamymddwyn yn y cyfarfodydd.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau, ar ôl derbyn cais, y byddai cyfieithydd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor fel y bydd yn gallu cyfleu'r cyfarfodydd drwy gyfrwng y gymraeg a'r saesneg.

Cafwyd wybod gan y Cadeirydd bod un aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cais i annerch yr Aelodau ag fe wahoddwyd Ms Annie O'Brien i siarad. Datganodd Ms O'Brien bod y Cyngor yn torri y Rheolau Sefydlog yn rheolaidd a bod angen newid hyn yn nawr ac nid yn ddiweddarach i ddiogelu'r Cyngor

Yn dilyn Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor ei hun

Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 : Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Yn dilyn arferion da ariannol a chyfrifyddol ar gyllidebu, monitro, cronfeydd wrth gefn, a gwariant.

Yn dilyn yr arfer gorau a argymhellir fel y nodir gan "Un Llais Cymru".

Sicrhau bod cofnodion cywir, diduedd a diduedd o'r holl gyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi.

Diweddaru'r wefan fel ei bod wedi'i strwythuro'n briodol a dogfennau sy'n hawdd eu canfod gan gynnwys: dileu dogfennau sy'n ymwneud â Llanfair; sicrhau bod cysylltiadau â dogfennau cyhoeddus yn gweithio; Calendr o gyfarfodydd a nodyn yn croesawu presenoldeb y cyhoedd ac yn egluro unrhyw rybudd sydd ei angen.

'Roedd yn ddiolchgar am y gwaith oedd y Cynghorwyr yn ei wneud er yn ddiweddar bod difrod sylweddol wedi ei wneud i'r Cyngor yn dilyn y scam. Fe wnaeth corff Llywodraeth Cymru Archwilio Cymru ymchwilio a chyhoeddi "Adroddiad er budd y cyhoedd". Gofynnodd a fyddai cydraniad gael ei basio gan y Cyngor i ddilyn y rheolau.

Ymatebodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn barod yn dilyn rhai o'r pwyntiau oedd wedi ei amlinellu uchod ag hefyd cafwyd wybod bod y gwaith o ddileu dogfennau oedd i ymwneud a Chyngor Cymuned Llanfair yn cael ei wneud.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ufuddhau i'r Reolau Sefydlog a chadw atynt

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 13eg 2024 fel rhai cywir gan mwyafrif o Aelodau, ond dywedodd y Cyng. Martin Hughes a Giles Bentham nad oeddynt yn dod o hyd i'r cofnodion yn gywir a'i bod wedi anfon e-bost at yr Aelodau yn amlinellu'r gwelliannau y dylid eu gwneud iddynt.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

'Roedd y Cyng. Martin Hughes a Giles Bentham ddim yn fodlon gyda beth oedd wedi ei ysgrifennu yn y cofnodion ynglyn a rhai materion ag 'roeddynt wedi anfon gwelliant i'w gynnwys yn y cofnodion i bob Aelod. 'Roedd anghytundeb gyda hyn am bod rhai Aelodau yn datgan bod yr hyn oedd yn y cofnodion yn iawn. Fe gafwyd pleidlais ynglyn a chynnwys y gwellianau neu beidio ag 'roedd 5 o blaid peidio ei gynnwys a 3 o blaid.
Datganodd y Cyng. Martin Hughes bod angen cynnwys yn y cofnodion ynglyn ar mater i wneud gyda dyfyniadau ymchwiliad y Cyngor ei fod yn gweithredu ar ran y Cyngor Cymuned yn y mater yma.
Cytunwyd bod angen anfon y cofnodion drafft i bob Aelod a gofyn iddynt ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud arnynt. 'Roedd pawb yn cytuno i hyn ond y Cyng. Martin Hughes.
Cyfeiriodd y Cyng. Martin Hughes at y digwyddiad oedd wedi cymeryd lle ddoe yr 2il o'r mis hwn pan ddadorchuddiwyd Plac Glas i goffáu'r arwr rhyfel lleol, Bryan Hilton-Jones M.C., a commandos X-Troop. Mynychwyd y seremoni gan Arglwydd Raglaw ac Uchel Siryf Gwynedd ynghyd ag aelodau o'r teuluoedd, pedwar cynghorydd cymuned a nifer o drigolion ac ymwelwyr. Doedd neb wedi gweld digwyddiad o'r fath yn digwydd yn y dref o'r blaen.
Datganodd y Cadeirydd y byddai yn falch os byddai yr Aelodau yn gadael iddo wybod os byddant yn mynychu digwyddiadau ar ran y Cyngor.
Cafwyd wybod gan y Cyng. Martin Hughes bod Mr. Martin Hanks o Bangor, 'roedd ei ddyfynbris o £1000 ar gyfer yr ymchwiliad wedi'i dderbyn yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai, yn barod i ddechrau ar y gwaith. Gofynnodd am ganiatâd y Cyngor iddo gysylltu â'r Clerc ac eraill oedd yn rhan o'r gwaith ac 'roedd wedi cytuno dod i gyfarfod nesa y Cyngor i drafod ymchwiliad y Cyngor a cytunodd pawb i hyn ag i'r Cyng. Hughes ofyn iddo ddod i'r cyfarfod erbyn 7.00 o'r gloch.
Cafwyd wybod gan y Cyng. Reg Chapman bod cyfarfod o Brosiect Celf Gyhoeddus Harlech dan arweiniad Cyngor Gwynedd yn cael ei gynnal ar y 6ed o'r mis hwn a bod cyllideb y prosiect wedi cynyddu o £10,000 i £20,000 ar gyfer safle ym Mharc Bronygraig.
Cytunwyd bod angen cyfarfod o'r is-bwyllgor cyllid ar is-bwyllgor parc chwarae cyn cyfarfod nesa y Cyngor.
Nododd y Cyng. Giles Bentham, yn dilyn ymweliad safle gyda gwirfoddolwr RSPB a chyngor ganddo, y gohiriwyd gwaith mawr a gynorthwywyd ar y rhandiroedd nes bod y tymor nythu drosodd (Awst/Medi yn ôl pob tebyg). Mae tarfu ar adar sy'n nythu yn drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**DATGAN BUDDIANT**

Nid oedd neb yn datgan buddiant ar unrhyw fater.
Datganodd y Cyng. Martin Hughes yn dilyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad oedd wedi ei fynychu yn ddiweddar ei fod wedi cael gwybod bod ddim yn rhaid i Aelodau oedd yn mynychu cyfarfod o sefydliad allanol ar ran y Cyngor ddim datgan buddiant pan yn trafod materion i wneud gyda'r sefydliad hwn oherwydd nid oeddynt yn aelodau o'r pwyllgor, ond byddai Aelodau oedd yn rhan o bwyllgor y sefydliad allanol ddatgan buddiant pan yn trafod materion i wneud gyda'r sefydliad.
Cytunwyd i gynnwys rhester o fuddianau Aelodau am y flwyddyn ariannol diwethaf ar wefan y Cyngor.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael gwybod bod angen ail beintio'r llinellau gwyn a llinellau melyn dwbl yn rhan o'r dref a'i bod wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn, roedd hi wedi cael gwybod bod y toiledau ym maes parcio Bron y Graig Isaf wedi cau yn ddiweddar oherwydd rhwystr ond roedd y rhain bellach wedi ail agor. Gofynnwyd I'r Cyng. Hughes gysylltu gyda'r Tim Tacluso a gofyn iddynt lanhau y stepiau I lawr am Bentre'r Efail.
Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen bod y llwybr I'r traeth wedi cael ei glerio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ei fod wedi mynychu noson gymdeithasol gyda gwirfoddolwyr y triathlon, mynychu ceremony dadarchuddio y plac ddoe ag ei fod wedi siarad ar ran Cyngor Gwynedd ag ei fod yn llongyfarch pawb am eu gwaith. Datganwyd pryder bod dau le parcio anabl wedi eu tynnu allan yn maes parcio Bron y Graig uchaf I wneud lle I'r pwyntiau gwefru trydan a cytunwyd bod angen cyfarfod ar y safle I drafod ailstrythwyro y maes parcio hwn. 'Roedd wedi derbyn cwynion bod loriau Williams Homes yn troi rownd yn ystad Ty Canol a bod hyn wedi stopio erbyn hyn.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £8,751.54 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £30,541.96 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi cael gwybod mewn cyfarfod gyda Swyddogion Un Llais Cymru bod cynnwys y mater uchod yn y cofnodion yn ymarfer da a nid oedd llawer o Gynghorau yn ei wneud.

**Seddii Cyhoeddus**

Adroddodd y Cyng. Wendy Williams ei bod yn y broses o dynnu rhestr allan o'r seddi cyhoeddus oedd angen sylw ond ei bod heb orffen eto a cytunwyd ei bod yn anfon rhestr ymlaen i'r Clerc o'r meinciau oedd angen sylw. Datganodd y Cyng. Reg Chapman bod gan y Cyngor ddyletswydd i gynnal a chadw y seddi cyhoeddus oedd wedi cael eu gosod er cof gan deuluoedd, ond datganwyd mae cyfrifoldeb y teuluoedd oedd cynnal a chadw y seddi hyn a cytunwyd bod y Cadeirydd yn holi Un Llais Cymru ynglyn a hyn. Cytunodd y Cyng. Rhian Corps helpu y Cyng. Williams i fynd o amgylch y seddi.

**Goleuadau Nadolig**

Adroddodd y Cadeirydd bod yr e-bost o'r cyfarfod diwethaf ynglyn ar mater uchod wedi ei anfon ymlaen i bawb ag hefyd ei fod wedi gofyn i Mr. Geraint Williams am bris y goleuadau a faint o oleuadau oedd ganddo ag 'roedd wedi cael ateb yn datgan bod ganddo o gwmpas 20 o oleuadau yn amodol ar gael eu profi ar pris fyddai £1,250. Cytunwyd anfon llythyr at Mr. Williams yn datgan yn amodol ar gael eu profi a'i ardystio ar nifer y byddai y Cyngor Cymuned yn eu archebu. 'Roedd pawb yn cytuno i hyn.

**Cyfeillion Ellis Wynne**

Adroddodd y Cadeirydd bod bob Aelod wedi derbyn e-bost gan y Cyng. Martin Hughes ynghyd a chopi o'r llythyr oedd Cyngor Gwynedd wedi ei anfon at yr uchod yn 2010. Datganodd y Cadeirydd ymhellach ei fod wedi siarad gyda Sian Llywelyn o'r Cyfeillion ag eu bod wedi trafod cynnal cyfarfod rhwng y Cyfeillion, Cyngor Gwynedd ar Cyngor Cymuned.

**Ffens o amgylch cae chwarae Brenin Sior**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyng. Reg Chapman arwain ar y mater uchod a cytunwyd ei drafod pan fydd yr is-bwyllgor parciau chwarae yn cyfarfod.

**Cerdyn Credit I'r Cyngor**

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r eitem hon gael ei roi ar yr agenda oherwydd ei fod o'r farn byddai gwneud rhai taliadau gyda cerdyn credit yn fwy diogel. Cytunwyd i hyn ag i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r banc.

**Cyflog y Clerc**

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r eitem hon gael ei roi ar yr agenda oherwydd nid oedd o'r farn bod y Clerc yn derbyn cyflog teg.

**Cytunwyd i drafod yr eitem uchod ar ddiwedd y cyfarfod**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £42,486.13 yn y cyfrif rhedegol a £72,596.60 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Kim Howie | - £25.99 - | taliad misol am gynnal gwefan y Cyngor |
| Mr. G. J. Williams | - £260.00 - | torri gwair cae chwarae Brenin Sior, parc chwarae ar cae peldroed (x2) |

Mr. Cameron May - £75.00 – trwsio toilet yn gollwng yn nhoiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa
Un Llais Cymru - £40.00 - hyfforddiant Cynghorwr
Mrs Yvonne Jones - £290.00 - glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa
Cyngor Gwynedd - £57.32 - treth cwrt tenis
Mr. Tom Edwards - £400.00 - torri a gwaredu coeden wedi marw ar llwybr natur Bron y Graig

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,824.75 – cynnig precept (taliad misol)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Ceri Griffiths a wnaeth y Cyng. Rhian Corps gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Ddim derbyniadau wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Cytunwyd i dalu anfoneb y cyfieithydd pan fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ei derbyn.**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ymhellach ei bod wedi anfon y deunydd at yr Archwiliwr Mewnol ond heb dderbyn ddim byd yn nol eto. 'Roedd wedi cael gwybod ganddynt bod angen i'r Cyngor drafod awdurdodi deuol' neu 'reolaeth ddeuol' a cytunwyd bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gofyn am fwy o fanylion ynglyn a hyn yn y banc. Hefyd datganodd ei bod wedi dod o hyd i mandadu presennol y Cyngor a bod rhai enwau angen cael ei dileu a rhai newydd angen cael eu cynnwys. Cytunwyd dileu y rhai oedd ddim yn gysylltiedig ar Cyngor ddim mwy a cynnwys enw y Cadeirydd ar Is-Gadierydd arni.

**GOHEBIAETH**
**Cyngor Gwynedd – Adran Economi**
Wedi derbyn e-bost gan Anna Lewis, Swyddog Cefnogi Cymunedau yn datgan ei bod ar hyn o bryd yn gweithio gyda Bwy'n Iach a Sports Wales ar brosiect i hyrwyddo cyfleoedd gweithgaredd corfforol yn y gymuned yn Harlech. Un rhan o hyn yw "Gall Genod Harlech" - rhaglen o weithgareddau i ferched sy'n digwydd ar ôl ysgol.
Yn datgan bod rhan o'r prosiect yn edrych ar y cyfleusterau a'r adnoddau sy'n bodoli yn y gymuned ag yn ystod eu hymweliad diwethaf, sylwodd Alun a Ffion (Byw'n Iach) ar y cae chwarae drws nesaf i'r Ganolfan Hamdden. 'Roedd ar ddeallt mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydy'r rhain ag yn gofyn beth ydy'r defnydd o'r ardal wedi'i ffensio gyda'r llifoleuadau. Hefyd yn datgan bod grwpiau sy'n ymwneud â rygbi a phêl-droed wedi mynegi angen am lifoleuadau symudol yn yr ardal ag yn gofyn a fyddai gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb mewn ariannu'r rhain. Cytunwyd bod angen mwy o wybodaeth ynglyn a hyn cyn I'r Cyngor gytuno I'w archebu.

**Cyngor Gwynedd – Adran Gyfreithiol**
Wedi derbyn ateb gan Karen Elizabeth Duggan o'r Adran uchod ynglyn a Phrydles y toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa ag yn datgan yn anffodus, nid oes fersiwn fwy syml o'r Brydles oherwydd y fersiwn hwn yw Prydles safonol y Cyngor ac felly nid oes modd ei addasu. Hefyd yn datgan y byddai yn anfon ein e-bost ymlaen at Gethin Vaughan Jones i drafod telerau hyd tymor y Brydles gyda'r Cyngor Cymuned. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cael ateb gan Mr. Jones ag ei fod yn datgan er bod cyfnod y brydles yn 99 mlynedd, mae gan y Cyngor Cymuned yr hawl i dorri'r brydles yn flynyddol ar y 31ain o Fawrth o bob blwyddyn trwy roi 12 mis o rybudd i Gyngor Gwynedd (gweler cymalau 1.36 a 3.26). Felly yn teimlo nid oedd angen addasu'r cyfnod gan ystyried mai ond blwyddyn bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned ymrwymo i yn ymarferol. Pleidleisiodd pawb bod y Cyngor yn arwyddo y Brydles hon heblaw y Cyng. Martin Hughes a oedd yn atal ei bleidlais.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylcheddol**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu'r Cyngor y bydd ffordd Pen Llech ar gau ar yr 17eg o'r mis hwn fel y gellir gwneud gwaith ar ran Dŵr Cymru. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon hwn ymlaen I'r Aelodau yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Economi**

Wedi derbyn e-bost gan Mr. Iwan Emlyn Davies o'r Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bod cynllun finyls ar gael I wella edrychiad canol trefi a mae hyn yn golygu gosod finyl o fewn ffenestri eiddo gwag ar y stryd fawr. Maen't yn gofyn I'r Cyngor Cymuned adnabod eiddo addas o fewn y dref a cyflwyno y manylion cyswllt, adnabod y perchnogion a phasio'r wybodaeth yma ymlaen os yw'n bosib ag unrhyw syniad o math o ddelwedd fysa y Cyngor Cymuned yn hoffi ei weld. Cytunwyd ymateb drwy ddatgan bod ddim eiddo gwag ar gael ar y stryd fawr ar hyn o bryd.

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod hyfforddiant am ddim yn cael ei gynnal a bod lle i ddau Gynghorydd fynd arno. Hefyd wedi derbyn rhestr dyddiadau hyfforddiant mis Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi. Cytunwyd i anfon y rhestr hwn ymlaen i bob Aelod.

**Cyflog y Clerc**

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r eitem hon gael ei roi ar yr agenda oherwydd nid oedd o'r farn bod y Clerc yn derbyn cyflog teg.

**Cyn cychwyn trafod y mater uchod ag ar ol pleidlais 'roedd pawb yn gytun bod aelodau o'r cyhoedd yn gadael y cyfarfod oherwydd bod y mater hwn i wneud hefo staff y Cyngor.**

Datganodd y Cadeirydd fod ganddo bryder bod Clercod yn gadael eu swyddi oherwydd diffyg cyflog ag ei fod wedi bod yn trafod y mater hwn gyda Un Llais Cymru. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn gwneud ymholiadau ynglyn ar canllawiau cenedlaethol i gyflogau a bod y mater yn cael ei drafod pan fydd yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn anfon copi o Gytundeb y Clerc i bob Aelod ond pwysleisiodd bod y ddogfen hon ddim i'w chael ei rhannu gyda'r cyhoedd.

**ARWYDDWYD.............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 798